Cofnodion cyfarfod arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 23 Mai 2016 at 7:00p.m.

PRESENNOL: Cynghorydd Geraint Woolford (Maer)
Cynghorwyr Stephen Beach, James Bryan, June Derry, Elisabeth Culshaw, Ken Hawkins, Rosie Hughes-Moseley, Menna Jones, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Emrys Wynne.

13. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Bob Costain, Simeon Jones ac Anne Roberts.

14. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad buddiannau.

15. ADRODDIAD YR HEDDLU

Croesawodd y Maer Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu Sandra Jones i'r cyfarfod i roi adroddiad ar faterion plismona. Adroddodd eu bod yn ymdrin â gyrru gwrthgymdeithasol gan yrwyr sy'n ymgynnull ym maes parcio Heol y Parc a bod dau hysbysiad Adran 59 wedi eu cyflwyno. Cadarnhaodd fod dau Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn Rhuthun, yn ogystal â'r swyddogion heddlu. Roedd anghydfodau rhwng cymdogion yn cymryd cryn dipyn o'u hamser yn ogystal ag ymdrin ag unigolion problematig a bregus. Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i holi cwestiynau a hysbysu'r swyddog am broblemau, megis pobl ifanc yn ymgasglu i yfed ger yr hen bont yng Nghae Ddôl, stand y clwb peldroed a mynwent Eglwys Sant Pedr. Hefyd gofynnwyd am gael ystadegau troseddu ar gyfer Rhuthun y tro nesaf y bydd yr heddlu yn mynychu cyfarfod y Cyngor Tref.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r cyflwyniad.*

16. CYFLWYNIAD GAN GYMDEITHAS CYMUNED LLANFWROG COMMUNITY ASSOCIATION

Croesawodd y Maer Mr Rod Bowden, Ymddiriedolwyr y Gymdeithas uchod, a Mr Bleddyn Jones, Rheolwr y Ganolfan, i ddarparu rhagor o fanylion ynghylch eu cais am gymorth ariannol i osod lifft a grisiau yn y Ganolfan. Pwysleisiwyd eu bod yn dymuno darparu mynediad i bawb i'r llawr uchaf, a fyddai hefyd yn golygu y gellid llogi'r ystafell llawr cyntaf gyda mynediad ar wahân na fydd yn effeithio ar weithgareddau ar y llawr gwaelod. Dywedasant eu bod yn aros am benderfyniad ynghylch eu cais am £15k i Sefydliad Teulu Williams, a bod eu cais i'r Loteri Cod Post wedi bod yn aflwyddiannus. Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau gwnaethant gadarnhau fod y Ganolfan yn gwneud elw, gydag amrywio grwpiau a gweithgareddau wedi eu lleoli yno. Dywedwyd fod ei werth fel ased yn £500k a bod y cyfrifon wedi eu harchwilio i'w gweld ar-lein. Estynnwyd gwahoddiad i'r aelodau ymweld â'r Ganolfan.
***PENDERFYNWYD**: gohirio'r penderfyniad nes bo canlyniad y ceisiadau cyllid eraill yn wybyddus.*

17. ADRODDIAD Y MAER

Darllenodd y Maer lythyrau diolch oddi wrth Gymdeithas Efeillio Rhuthun a'r Cylch a Drysau Agored Rhuthun am gymorth ariannol gwerth £500 a £1,500 yn ôl eu trefn, a gan Glwb Gymnasteg Rhuthun a Dinbych, Sgowtiaid Rhuthun a Chlwb Ffermwyr Ifanc Rhuthun am arian a dderbyniwyd o gronfa elusennol y Maer.

26/04 Lansiad swyddogol bwyty Rhif 5, Stryd Clwyd Uchaf
28/04 Cyngerdd elusennol Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych yn y Rhyl
04/05 Digwyddiad ymgysylltu ynghylch Carchar Ei Mawrhydi Y Berwyn
06/05 Sefydlu Maer Tref Dinbych
14/05 Parti Eurovision
16/05 Cyfarch yr ymwelwyr gefeillio yng Nghanolfan Llanfwrog
17/05 Cyfarfod a chyfarch holl aelodau criw Briec
Cyfarfod ar y cyd i Bwyllgorau Gefeillio Rhuthun a Briec
18/05 Pryd o fwyd ym mwyty'r Clwyd Gate gyda'r grwpiau gefeillio

Agor yr ardd gymunedol yng Nghae Seren
Taith o gwmpas Ysgol Stryd y Rhos gyda'r ymwelwyr o Briec
19/05 Ymweld â Nantclwyd y Dre gyda'r grwpiau gefeillio
Cyfarfod clwstwr i Gadeiryddion a Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned
20/05 Ffarwelio â'r ymwelwyr o Briec
Agoriad swyddogol Gardd yr Arglwydd, Nantclwyd y Dre
Y Faeres yn agoriad swyddogol derbynfa newydd Ysgol Brynhyfryd
21/05 Noson gomedi yn Theatr John Ambrose
22/05 Gwasanaeth Sul Dinesig Dinbych

18. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Stephen Beach	Arddangosfa'r cynigion ar gyfer yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Pen Barras ac Ysgol Stryd y Rhos, cyflwyno'r Gwobrau Pabi yn Ysgol Rydal Penrhos, cyfarfod Hubbub, agoriad swyddogol gardd gymunedol Cae Seren ac agoriad swyddogol Gardd yr Arglwydd.
Cyng. James Bryan	Cyfarfodydd pwyllgor Gŵyl Rhuthun, Cyfarfod Blynyddol Sgowtiaid Rhuthun a'r noson gomedi yn Theatr John Ambrose
Cyng. Elisabeth Culshaw	Agoriad swyddogol gardd gymunedol Cae Seren, agoriad swyddogol Gardd yr Arglwydd, dawns te prynhawn prosiect Cofio Rhuthun a'r digwyddiad yng Nghastell Rhuthun yn rhan o brosiect Cofio Rhuthun
Cyng. June Derry	Gwasanaeth Ruthin School i bobl yn deillio o dref Rhuthun
Cyng. Ken Hawkins	Ymgyrch glanhau'r dref ac agoriad swyddogol Gardd yr Arglwydd
Cyng. Menna Jones	Cyfarfod pwyllgor rheoli Llys Marchan, Banc Bwyd, agoriad swyddogol gardd gymunedol Cae Seren, cyfarfod gydag ymwelwyr Briec, agoriad swyddogol Gardd yr Arglwydd a chyfarfod llywodraethwyr Ysgol Borthyn
Cyng. Robert Owen-Ellis	Banc bwyd x 4, arddangosfa'r cynigion ar gyfer yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Pen Barras ac Ysgol Stryd y Rhos, ymgyrch glanhau'r dref ac agoriad swyddogol Gardd yr Arglwydd.
Cyng. Heather Williams	Arddangosfa'r cynigion ar gyfer yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Pen Barras ac Ysgol Stryd y Rhos, ymgyrch glanhau'r dref, teithiau tywys i'r ymwelwyr o Briec a phrosiect Cofio Rhuthun ac agoriad swyddogol Gardd yr Arglwydd.
Cyng. Emrys Wynne	Arddangosfa'r cynigion ar gyfer yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Pen Barras ac Ysgol Stryd y Rhos.

19. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL DIWETHAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2016 yn gywir.*

20. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

21. COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 16 Mai 2016.*

22. PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mai 2016.
***PENDERFYNWYD**: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

23. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mai 2016.
***PENDERFYNWYD**: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

24. GORCHYMYN BANC – BANC BARCLAYS

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau'r Maer a'r Dirprwy Faer fel y llofnodwyr newydd ac i lenwi'r ffurflen gorchymyn banc yn unol â hynny.*

25. AELODAU CYNGOR TREF RHUTHUN

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau bod y manylion yn gywir, ac at ddefnydd yr aelodau yn unig, yn ddarostyngedig i dderbyn rhif ffôn symudol cyfredol gan y Cynghorydd Ian Lewney.*

26. AELODAETH PWYLLGORAU 2016/17

Bu'r aelodau yn ystyried aelodaeth y gwahanol bwyllgorau ac is-bwyllgorau.
***PENDERFYNWYD**: diweddaru aelodaeth y pwyllgorau ar gyfer 2016/17.*

27. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL 2016/17

Adolygodd yr aelodau gynrychiolaeth y Cyngor Tref ar gyrff allanol.
***PENDERFYNWYD**: diweddaru'r gynrychiolaeth ar gyrff allanol.*

28. ADNEWYDDU AELODAETH – CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR DDINBYCH

***PENDERFYNWYD**: adnewyddu aelodaeth Cyngor Tref Rhuthun gyda CGGSDd am £15.00.*

29. GOHEBIAETH

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a nodi gohebiaeth oddi wrth Emily Reddy, Uwch Swyddog Datblygu, CGGSDd, gwahoddiad i Ddiwrnod y Lluoedd Arfog, gwahoddiad i gynhadledd flynyddol Un Llais Cymru ar 6 Gorffennaf a llythyr am y prosiect Caeau Canmlwyddiant oddi wrth Feysydd Chwarae Cymru.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r ohebiaeth a gwrthod y gwahoddiad i gynhadledd Un Llais Cymru ac enwebu'r Caeau Chwarae Coffa ar gyfer y prosiect Caeau Canmlwyddiant.*

30. LOGO CYNGOR TREF RHUTHUN

Bu'r Aelodau'n ystyried y logo cyfredol a'r logo wedi'i ddiweddaru a
***PHENDERFYNWYD**: cadw'r logo cyfredol.*

31. ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2016

Cyflwynodd y Clerc gopi o'r Adroddiad Archwiliad Mewnol gan JDH Business Services Ltd, a oedd yn nodi tri mater a ganfuwyd.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r adroddiad.*

32. ADRODDIAD ARCHWILIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r ffurflen flynyddol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo'r ddau.*

33. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Ebrill 2016.
***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Ebrill 2016.*

34. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: awdurdodi talu'r eitemau isod.*

887	Gŵyl Rhuthun	Cyfraniad		£1,000.00
888	Cymdeithas Strôc	Dewis elusen Dinesydd Da'r Flwyddyn		£100.00
889	Clwb Triathlon Sir Ddinbych	Dewis fudiad Person Ifanc y Flwyddyn		£100.00
D.D.	BT Business	Gwasanaethau band eang	*	£75.72
890	Llanfwrog CIC	Gwasanaeth torri glaswellt – Ebrill a Mai 2016		£856.50
891	Cymorth Cynllunio Cymru	Hyfforddiant cynllunio – Cynghorydd Ian Lewney		£25.00
892	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych	Adnewyddu aelodaeth		£15.00
893	Mrs Val Wright	Gwaith trwsio Clogyn y Maer		£38.00

894	JDH Business Services Ltd	Ffi am archwiliad mewnol 2015/16	*	£306.00
895	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd – Cyfarfod Blynyddol	*	£102.00
896	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd 23 Mai 2016	*	£108.00
897	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		£252.83
898	Cynghorydd Geraint Woolford	Lwfans y Maer (rhan daliad)		£600.00
771	*Cymeradwyo ôl-weithredrol* J & C Brimble	Dyfrio'r basgedi blodau – 14 gwaith		£1,951.80
772	*Cymeradwyo ôl-weithredrol* J & C Brimble	Dyfrio'r basgedi – Llwybr Celf		£519.90

35. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fel dydd Llun, 27 Mehefin 2016.*